

Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021

Hysbysiad o gyfarfod**Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf****Dydd Iau, 28ain Ionawr, 2021 at 10.00 am,
Cyfarfod o Bell**

*Nodwch y cynhelir rhag-gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer
aelodau'r pwyllgor*

AGENDA

Rhif yr Eitem	Eitem	Tudalennau
RHAN A: MATERION CRAFFU A THROSEDD AC ANHREFN		
Dim materion l'w trafod.		
RHAN B – PWLLGOR DETHOL CYMUNEDAU CRYF		
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd	
4.	Monitro Cyllideb: Craffu ar sefyllfa monitro cyfalaf a referniw'r gyllideb ym Mis 7, gan osod y cyd-destun ar gyfer craffu ar gynigion cyllidebol.	1 - 60
5.	Craffu ar y Gyllideb: Craffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2021/22 Defnyddiwch y ddolen hon i gyrchu'r papurau ar gyfer yr eitem hon, os gwelwch yn dda - ar gael fel rhan o agenda'r Cabinet 20fed Ionawr 2021. Cliciwch Yma	61 - 96
6.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol <ul style="list-style-type: none">12 Tachwedd 202012 Ionawr 2021 (Arbennig)	97 - 106

7.	Rhaglen waith ymlaen Cymunedau Cryf	107 - 108
8.	Rhaglen waith ymlaen y Cabinet a'r Cyngor	109 - 124
9.	Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	

Paul Matthews

Prif Weithredwr

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL A GANLYN:

Y Cyngorwyr Sirol:

L.Dymock
D. Batrouni
P. Clarke
D. Dovey
A. Easson
L. Guppy
V. Smith
J.Treharne
A. Webb

Gwybodaeth I'r Cyhoedd

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni

Neb yn cael ei adael ar ôl

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

Ein sir yn ffynnu

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

Ein blaenoriaethau

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.

Canllawiau Pwyllgorau Craffu Sir Fynwy

Rôl y Rhag-gyfarfod

1. Pam mae'r Pwyllgor yn craffu ar hyn? (cefndir, materion allweddol)
2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniad y mae Aelodau am eu cyflawni?
3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os na, pwy allai ddarparu hyn?
 - Cytuno ar y drefn holi a pha Aelodau fydd yn arwain
 - Cytuno ar gwestiynau i swyddogion a chwestiynau i'r Aelod Cabinet

Cwestiynau ar gyfer y Cyfarfod

Craffu ar Berfformiad

1. Sut mae perfformiad yn cymharu â blynyddoedd blaenorol? A yw'n well neu'n waeth? Pam?
2. Sut mae perfformiad yn cymharu â pherfformiad cynghorau eraill/darparwyr gwasanaethau eraill? A yw'n well neu'n waeth? Pam?
3. Sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau penodol? A yw'n well neu'n waeth? Pam?
4. Sut y pennwyd targedau perfformiad? Ydyn nhw'n ddigon heriol/realistig?
5. Sut mae defnyddwyr gwasanaeth/y cyhoedd/partneriaid yn gweld perfformiad y gwasanaeth?
6. A fu unrhyw archwiliadau ac arolygiadau diweddar? Beth oedd y canfyddiadau?
7. Sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol?
8. A yw'r gwelliant/dirywiad o ran perfformiad yn gysylltiedig â chynnydd/gostyngiad mewn adnoddau? Pa gapasiti sydd i wella?

Craffu ar Bolisiau

1. Ar bwy mae'r polisi'n effeithio ~ yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? Pwy fydd yn elwa fwyaf/lleiaf?
2. Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth/rhanddeiliaid? A ydynt yn credu y bydd yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir?
3. Beth yw barn y gymuned gyfan - safbwynt y 'trethdalwr'?
4. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â rhanddeiliaid? A wnaeth y broses alluogi pawb sydd â buddiant i ddweud eu dweud?
5. Pa arferion a dewisiadau a ystyriwyd wrth ddatblygu/adolygu'r polisi hwn? Pa dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r hyn sy'n gweithio?
6. A yw'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, fel y'u diffinnir yn ein cynllun corfforaethol?
7. A ystyriwyd yr holl oblygiadau datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a diogelu perthnasol? Er enghraifft, beth yw'r *gweithdrefnau y mae angen eu rhoi ar waith i amddiffyn plant*?
8. Faint fydd y gost hon i'w gweithredu a pha ffynhonnell ariannu sydd wedi'i nodi?
9. Sut bydd perfformiad y polisi'n cael ei fesur a'r effaith yn cael ei gwerthuso.

Cwestiynau i'r Pwyllgor, i orffen ...

A oes gennym y wybodaeth angenrheidiol i ffurfio casgliadau/gwneud argymhellion i'r weithrediaeth, y Cyngor, partneriaid eraill? Os nac oes, a oes angen i ni:

- (i) Ymchwilio i'r mater yn fanylach?
- (ii) Cael rhagor o wybodaeth oddi wrth dystion eraill – Aelod Gweithredol, arbenigwr annibynnol, aelodau o'r gymuned leol, defnyddwyr gwasanaethau, cyrff rheoleiddio ...
- (iii) Cytuno ar gamau pellach i'w cymryd o fewn amserlen/adroddiad monitro yn y dyfodol...

